Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

**Byddwch yn rhan o'n tîm a gwnewch Dde Cymru yn fwy diogel trwy leihau risg.**

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru erbyn hyn yn recriwtio ar gyfer Rheolwr Gwylfa System Dyletswydd Gyflawn (A).**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub (GTA) mwyaf yn y DU, gan wasanaethu 1.6 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol sy'n ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae GTADC wedi ymrwymo i wneud ein cymunedau y lleoedd mwyaf diogel i fyw, gweithio ynddynt ac ymweld â nhw, trwy ganolbwyntio ar amddiffyn cymunedau, denu a datblygu ein pobl, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, wrth gyflawni gwelliant sefydliadol.

Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn awyddus i benodi Rheolwyr Gwylfa System Dyletswydd Gyflawn (SDdG) (A) a fydd yn dangos agwedd frwdfrydig a chynhwysol at arwain gwylfa neu faes gwaith, wrth gynnal gwerthoedd ein Gwasanaeth:




Bydd y swydd hon yn rhoi cyfle i ymgeiswyr llwyddiannus wella diwylliant a gwerthoedd y Gwasanaeth Tân ac Achub trwy ddarparu arweinyddiaeth tîm effeithiol tra hefyd yn ymuno â'r sefydliad i gyfrannu at ei drawsnewidiad newid diwylliant presennol.

**SUT I YMGEISIO:**
Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei gyrchu drwy law ein gwefan: https://www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us/latest-vacancies/. Yn ystod y broses anogir ymgeiswyr i wirio pob ffolder e-bost am ddiweddariadau a gynhyrchir gan y system. Os bydd angen fersiwn papur, e-bostiwch: personél@decymru-tan.gov.uk.

Yn ogystal â'r cais ar-lein, dylai ymgeiswyr ddarllen y meini prawf cymhwysedd a llunio rhestr fer a ganlyn yn llawn ac ymateb yn fanwl (ar y ffurflen dempled a ddarperir) i'r 5 maen prawf ar gyfer llunio rhestr fer. Mae maen prawf 1 y ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer y rôl hon, tra bod meini prawf 2-5 yn cael eu cymryd yn uniongyrchol o Fframwaith Arwain y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CCPT) ac yn amlinellu'r ymddygiadau hynny a ddisgwylir ar gyfer "Arwain eraill". Dylai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'u cyfranogiad a'u profiad eu hunain o bob un o'r meini prawf trwy ddarparu cyflwyniad sy'n amlinellu ac yn dangos eu cymhwysedd a'u gallu ym mhob un o'r meysydd. Gan fod hon yn broses hynod gystadleuol, dim ond y ceisiadau hynny sy'n pasio'r cam sifftio fydd yn mynd ymlaen i gam cyfweld y broses.

**NODWCH: NID YDYM YN DERBYN CV FEL RHAN O'R CAIS LLENWCH Y CAIS AR-LEIN YN LLAWN AC UWCHLWYTHO EICH MEINI PRAWF AR GYFER Y RHESTR FER YN ADRAN TYSTIOLAETH CEFNOGI EICH CAIS GAN DDEFNYDDIO'R TEMPLED A DDARPERIR.**

**Dyddiad cau - 12:00yh ganol dydd Ddydd Llun 28ain Hydref 2024**

**Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 25/11/2024**

**MEINI PRAWF CYMHWYSTER:**
Rhaid i ymgeiswyr allu dangos tystiolaeth o'r holl feini prawf canlynol:

1. Rheolwr Criw System Dyletswydd Gyflawn cymwys a sylweddol **NEU** Reolwr Gwylfa System Ddyletswydd Gyflawn **NEU** Rheolwr wylfa Ar-alwad parhaol ac cymwys a gyflogir mewn Gwasanaeth Tân ac Achub awdurdod lleol yn y DU.
2. Llwyddiant Prawf Technegol Goruchwylio gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (Papurau 1 a 2 cyn 2023, Papur 1 o 2023 ymlaen). **NEU** Dystysgrif mewn Gweithrediadau Gwasanaeth Tân a Gorchymyn Digwyddiad Lefel 3 Y Sefydliad Peirianneg Tân (IFE)
3. Cymhwyster Rheoli'n Ddiogel IOSH. **NEU** barodrwydd i ennill cymhwyster IOSH o fewn 6 mis ar ôl penodi.

**GOFYNION RHESTR FER**:
Amlinellwch mewn dogfen Word sut rydych chi'n bodloni pob un o'r 5 maes meini prawf rhestr fer ganlynol mewn dim mwy na 500 gair ar gyfer pob maen prawf (cyfanswm o 2500 o eiriau).

1. **Cymhwysedd** - Amlinellwch sut rydych yn bodloni'r gofynion meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rôl hon.
2. **Effaith Bersonol –** Rhowch dystiolaeth o sut rydych wedi dangos gwerthoedd craidd eich sefydliad yn y gweithle.
3. **Arweinyddiaeth Ragorol** – Rhowch dystiolaeth o achlysur(on) lle mae newid wedi digwydd a effeithiodd arnoch chi a'ch tîm a sut y gwnaethoch reoli'r newidiadau yn llwyddiannus.
4. **Cyflwyno Gwasanaethau** – Dangoswch sut yr ydych wedi arwain tîm yn effeithiol i fodloni amcanion ac anghenion digwyddiad gweithredol.
5. **Effeithlonrwydd Sefydliadol** – Dangoswch sut rydych wedi cyfrannu at leihau risg yn eich cymuned.

**Ymgeiswyr allanol** - Sylwch fod penodiadau i'r rôl hon yn amodol ar gyflawni gwiriad Manwl y Rhestr(au) Gwaharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dylwch fod yn ymwybodol y bydd y gwiriad hwn yn nodi unrhyw euogfarnau neu rybuddion sydd wedi darfod a heb ddarfod. Cyn i unrhyw gynigion ffurfiol gael eu gwneud bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae'r gwasanaeth yn credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn annog yn rhagweithiol ceisiadau o bob sector o fewn y gymuned.

We are a Living Wage Employer

disability confident COMMITTED